

EVANS, HUGH ('Hywel Eryri '; 1767 - 1841?), bardd

Enw: Hugh Evans
Ffugenw: Hywel Eryri
Dyddiad geni: 1767
Dyddiad marw: 1841?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd ym mhlwyf Llanfairmathafarneithaf, sir Fôn. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Bu'n byw yn Abererch, Chwilog, Plas Madog ym mhlwy Clynnog, a Phenygroes, Sir Gaernarfon. Dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau yn gynnar ar ei oes; ysgrifennodd gywydd ar ' Cariad ' ar gyfer eisteddfod Bangor, c. 1790, ac un arall yn 1802 ar ' Drylliad y llong Minerva, Ionawr 21, 1802.' Ceir swm o'i waith yn y *North Wales Chronicle*, *Corff y Gaingc*, *Blodau Arfon*, *Tywysog Cymru*, *Y Gwladgarwr*, etc. Cyhoeddwyd tair neu bedair o gerddi o'i waith - e.e., ' Achwyniad Hywel o'r Yri wrth Wragedd Gwynedd am dderbyniad Morgan Rondl a gwrthodiad Syr John Haidd o'r Gadair Seneddol.' Bu farw ym Mhenygroes rywbryd ar ôl mis Mai 1840.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Y Brython, 1860, 134, 165; 1861, 153

Blodau Arfon (1842-1869)

'Cybi,' *Ardal y cewri enwogion plwyf Llanybi, a'r cylch ynghydag enwau lleoedd, eu hystyr a'u traddodiadau*

Y Traethodydd, 1851, 388

Y Geninen, 1905, 215

W. R. Ambrose, *Hynafiaethau, cofiannau, a hanes presennol Nant Nantlle y traethawd buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Pen-y-groes, Llundain y Pasg, 1871* (1872), 42

A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century (London 1908-11) (gol. J. H. Davies), 103, 118

llawysgrifau ym meddiant yr ysgrifennydd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733191

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrefydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Gfrannu](#)

Arddull APA

x

Owen, R. (. (1953). EVANS, HUGH ('Hywel Eryri '; 1767 - 1841?), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-HUG-1767>

[Gfrannu](#)

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government